

ANARAWD ap RHODRI (bu farw 916), tywysog

Enw: Anarawd ap Rhodri
Dyddiad marw: 916
Plentyn: Elisedd ap Rhodri Mawr
Plentyn: Idwal Foel
Rhiant: Angharad ferch Meurig
Rhiant: Rhodri Mawr
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tywysog
Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: John Edward Lloyd

Mab hynaf **Rhodri Mawr**. Pan laddwyd ei dad yn 878 gan wŷr Mercia daeth Anarawd yn bennaeth Môn a rhannau cyfagos Gwynedd. Efe, yn ddiau, oedd y gorchfygwr yn y frwydr ar lannau'r Conwy yn 881 - buddugoliaeth a gyfrifai'r Cymry yn arwydd o ddial Duw am **Rodri**.

Ar y cyntaf ceisiodd Anarawd ei nerthu ei hun trwy ymuno â brenhiniaeth Ddanaidd York; ond ni fu'r ymuno o fawr fudd iddo a throes yn hytrach at Alfred, brenin Wessex. Cafodd dderbyniad gwresog, gan gael anrhydedd a rhoddion; bu Alfred yn dad bedydd iddo pan gafodd fedydd esgob. Addawodd yntau ufudd-dod i Alfred, a thrwy hynny daeth yn gyfuwch ag Ethelred o Mercia. Dyna'i safle yn 893, yn ôl **Asser**; gyda chymorth o Loegr y llwyddodd (895) i anrheithio Ceredigion ac Ystrad Tywi, a ddelid, y mae'n fwy na thebyg, gan ei frawd **Cadell**. Bu farw yn 916 a dilynwyd ef gan ei fab **Idwal Foel**.

O Anarawd y disgynnodd tywysogion diweddarach Gwynedd, megis y disgynnodd llinach Deheubarth o'i frawd **Cadell**. Ni ellid ond disgwyl y byddai i wŷr Deheubarth daeru yn nes ymlaen mai **Cadell** oedd yr hynaf o'r ddau frawd, ond y mae'r dystiolaeth yn erbyn hyn. Cafwyd ymdriniaeth lawn ar y pwnc a gwrthateb i farn pobl y De gan **Robert Vaughan**, Hengwrt, yn ei lyfr *British Antiquities Revived*, 1662 (ail argraffiad yn 1834).

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), 326-33

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Anarawd ap Rhodri

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q486165

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Lloyd, J. E., (1953). ANARAWD ap RHODRI (bu farw 916), tywysog. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ANAR-APR-0857>

Cyfrwngwladur

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government